**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** **Dydd Iau, 29 Mehefin**
**Amser:** **2:00pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Seneddol 2**
**Teitl:** **Mesur Buddiannau Aelodau Senedd yr Alban**

1. Ar 8 Mehefin 2006, mabwysiadodd Senedd yr Alban yr '*Interests of Members of the Scottish Parliament Bill*'. Daeth hwn yn lle'r Gorchymyn Buddiannau Aelodau trosiannol a safai er 1999. Gellir gweld y Mesur ar y cyswllt sy'n dilyn: http://www.scottish.parliament.uk/business/bills/44-interestsMembers/b44s2-aspassed.pdf. Gellir gweld briffio Canolfan Gwybodaeth Senedd yr Alban ar y Mesur yma: http://www.scottish.parliament.uk/business/research/briefings-05/SB05-80_000.pdf

2. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer creu cofrestr gyhoeddus o Fuddiannau'r Aelodau, ei chynnal a'i diwygio, ac mae'n cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer nid yn unig y 'buddiannau sydd i'w cofrestru' eu hunain ond hefyd y broses sydd ynghlwm wrth gofrestru'r buddiannau a chynnal y gofrestr. Mae hyn yn wahanol i drefniadau'r Cynulliad, lle mae'r manylion yn cael eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog a'r canllawiau.

3. Yn ei hadolygiad, cymharodd Yr Athro Diana Woodhouse systemau Cymru a'r Alban yn fanwl. Ar wahân i ryw fân faterion o ran y weithdrefn, nid yw Mesur Buddiannau'r Aelodau mewn gwirionedd yn wahanol iawn i'n darpariaethau ni. Ar ôl ystyried darpariaethau'r Mesur, nid yw'r Ysgrifenyddiaeth yn dymuno argymell unrhyw ddiwygiadau i ddarpariaethau'r Cynulliad.

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r darpariaethau sydd yn y Mesur.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**